

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL

GYMDEITHASOL:119/2023

DYDDIAD CYHOEDDI: 14/12/2023



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Trwyddedu Statudol i Ddarparwyr Llety Ymwelwyr Barn Defnyddwyr a Phreswylwyr

Adroddiad

ISBN Digidol **978-1-83577-278-2**

© Hawlfraint y Goron

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys (cliciwch ar y teitl i neidio i'r bennod)

Pennod	Rhif tudalen
<u>Cefndir a Methodoleg</u>	3
<u>Canfyddiadau allweddol</u>	7
<u>Gosod y cyd-destun: Demograffeg ymatebwyr a bwriadau twristiaeth</u>	10
<u>Agweddau ymhlith ymgymerywyr triplau domestig</u>	14
<u>Agweddau ymhlith preswylwyr o Gymru</u>	20
<u>Atodiad 1</u>	21

Cefndir a Methodoleg



Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynigion ar gyfer Cynllun Trwyddedu Statudol i holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru. Byddai'r cynllun yn gorfodi unrhyw un sy'n cynnig llety i'r cyhoedd i gael trwydded i weithredu.

Fel rhan o'r broses datblygu polisi, maent yn ceisio cael rhywfaint o fewnwelediad defnyddwyr i sut y gallai cynllun trwydded effeithio ar ganfyddiadau ymwelwyr o'r llety a gynigir yng Nghymru.

Er mwyn deall barn y cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu BVA BDRC i gynnal ymchwil meintiol pwrpasol.

Methodoleg

Cynhaliwyd yr ymchwil ar gyfer y prosiect hwn gan BVA BDRC – cwmni ymchwil marchnad annibynnol – drwy eu harolwg ar-lein ClearSight – arolwg cynrychioliadol cenedlaethol misol sy'n canolbwyntio ar agweddau cyhoedd y DU at deithio a hamdden. Mae arolwg ClearSight yn cael ei noddi ar y cyd gan VisitEngland, Croeso Cymru a VisitScotland, ac mae'n cynnwys nifer o gwestiynau ar fwriadau twristiaeth ddomestig yn y flwyddyn i ddod.

- Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng 1^{af} Medi a 7^{fed} Medi 2023
- Cwblhaodd 2,557 o ymatebwyr yr arolwg hwn, ac mae 1,022 ohonynt yn byw yng Nghymru
- Mae'r data wedi'i bwysoli yn ôl oedran, rhyw, gradd gymdeithasol a rhanbarth felly mae'n gynrychioliadol yn genedlaethol o boblogaeth y DU. Caiff data ei bwysoli ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio nifer o gategoriâu y gall fod angen eu hegluro i'r darlennydd.

Yn y bennod gyntaf rydym yn defnyddio'r term 'graddau cymdeithasol'. Mae Gradd Gymdeithasol yn system ddsbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth ac sy'n cyd-fynd yn fras ag incwm. Mae wedi cael ei ddefnyddio fel safon o fewn ymchwil marchnad ers nifer o ddegawdau i adeiladu dealltwriaeth o ymatebwyr ochr yn ochr â nifer o ffactorau eraill. Yn fras, amlinellir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

- A Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch
- B Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol
- C1 Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol goruchwyllo, clerigol ac iau
- C2 Gweithwyr llaw medrus
- D Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft
- E Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a gweithwyr gradd isaf, di-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig

Rydym hefyd yn darparu dadansoddiadau rhanbarthol o breswylwyr Cymru fel y diffinnir isod. Mae awdurdodau unedol yn cael eu huno i gynhyrchu meintiau sylfaen digonol ar gyfer dadansoddiad cadarn.

- **Gogledd Cymru:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- **Canolbarth Cymru:** Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys.
- **De-orllewin Cymru:** Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, Dinas a Sir Abertawe.
- **De-ddwyrain Cymru:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Canfyddiadau allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Agweddau ymhlith ymgwymerwyr tripliau domestig

1. Mae cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch yn amlwg yn bwysig i ymgwymerwyr tripliau domestig wrth archebu llety. Mae llety sy'n 'gweithredu'n ddiogel' yn cael ei ystyried yn bwysig i'r mwyafrif helaeth (89%) – fymryn ar y blaen i 'adolygiadau cadarnhaol' (88%) ac yn gyfforddus ar y blaen i fod yn 'gyfeillgar i'r amgylchedd' (73%). Mae 'y gallu i godi pryderon neu gwynion am safonau gyda chorff annibynnol' yn cael ei ystyried yn bwysig i 3 o bob 4 (76%).
2. Yn nodedig, o'r gwahanol amodau a fesurwyd, roedd 'llety *nad* yw'n gweithredu'n ddiogel' yn cael ei ystyried fel y ffactor arweiniol a fyddai'n atal bwriadwyr rhag archebu llety – dywedodd 59% y byddent yn ôl pob tebyg/yn bendant ddim yn archebu yn y senario hwn – cyn 'ddim yn cynnig gwerth da am arian' (56%). Roedd 'ddim yn darparu'r gallu i godi pryderon gyda chorff annibynnol' yn cael ei ystyried yn llai annymunol, er bod 44% nodedig wedi nodi y byddai'n golygu eu bod yn debygol/yn bendant ddim yn archebu.
3. Nid yw'r mwyafrif (62%) o'r bwriadwyr tripliau domestig yn ymwybodol nad oes unrhyw gynllun ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu'r llety gadarnhau eu bod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch penodol i weithredu. Mae hyn yn codi'n sylweddol ymhlith y rhai na fyddent yn archebu llety os nad yw'r lleoliad 'yn gweithredu'n ddiogel' (80%) neu os nad oes 'gallu i godi pryderon am safonau' (78%).
4. Efallai nad yw'n syndod, o ystyried ei bwysigrwydd canfyddedig, bod mwyafrif (83%) o'r bwriadwyr tripliau domestig yn dweud y byddent yn 'fwy tebygol' o archebu llety pe bai gofyniad cyfreithiol i gadarnhau cydymffurfiaeth ag iechyd a diogelwch. Dywedodd mwyafrif ychydig yn fwy (85%) y byddent yn 'fwy hyderus' yn eu diogelwch personol pe bai'r gofyniad cyfreithiol hwn yn bodoli.
5. Pan ofynnwyd iddynt am bwysigrwydd cymharol gwahanol elfennau i'w cynnwys o fewn gofynion iechyd a diogelwch, roedd mwyafrif yn gweld pob un a brofwyd gennym yn bwysig iawn/gweddol bwysig. Ystyriwyd 'diogelwch nwy', 'diogelwch trydanol', 'asesiad risg tân a 'hylendid bwyd' fel y rhai pwysicaf – mwy na 4 o bob 5 yn eu hystyried yn 'bwysig iawn'. Roedd meysydd eraill a brofwyd yn cynnwys 'diogelwch dŵr', 'asesiad risg legionella', 'yswiriant' a 'gallu i godi pryder gyda chorff annibynnol'. Yn ogystal â'r rhai a brofwyd, awgrymodd bwriadwyr tripliau amrywiaeth o feysydd posibl eraill gan gynnwys 'safonau hygrychedd', 'diogelwch plant' a 'lefelau troseddau lleol'.

Canfyddiadau allweddol (2)

Agweddau ymhlith preswylwyr o Gymru

1. Mae bron i 3 o bob 5 (59%) o breswylwyr o Gymru yn credu eu bod yn cael 'peth' neu 'lawer' o dwristiaeth yn eu hardal leol, gan godi i 7 o bob 10 (70%) o breswylwyr Gogledd Cymru.
2. O'r rhai sy'n denu o leiaf 'peth' twristiaeth i'w hardal leol, mae canfyddiad cyffredinol bod nifer y darparwyr llety wedi cynyddu yn y 5 mlynedd diwethaf – yr uchaf ymhlith preswylwyr Gogledd a Chanolbarth Cymru.
3. Yr effeithiau negyddol canfyddedig mwyaf o gynyddu llety i ymwelwyr yw 'sbwriel neu lygredd' (50% yn ei weld yn cael effaith weddol negyddol/negyddol iawn), 'rhwyddineb parcio' (47%) a 'gallu pobl leol i ddod o hyd i dŷ i rentu neu brynu yn y gymuned' (41%). Yr effaith gadarnhaol fwyaf canfyddedig o gynyddu llety i ymwelwyr yw'r 'economi leol' (mae 69% yn ei weld yn cael effaith gadarnhaol iawn/gweddol gadarnhaol). Mae effaith gadarnhaol net hefyd ar 'iechyd a diogelwch', er bod y nifer fwyaf o breswylwyr yn gweld yr effaith yn gymharol niwtral yn y maes hwn.
4. Yn debyg i fwriadwyr triplau domestig, nid oedd y rhan fwyaf o breswylwyr o Gymru (71%) yn ymwybodol nad oes unrhyw gynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety gadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch i weithredu. Pan ofynnwyd pa effaith y byddai cynllun o'r fath yn ei chael ar eu hardal leol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae bron i 7 o bob 10 (68%) yn credu y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar 'iechyd a diogelwch' – gan gredu y byddai cynllun o'r fath yn codi safonau ac yn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae tua dwy ran o dair (65%) yn credu y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar yr 'economi leol', wedi'i ysgogi efallai gan ymdeimlad y byddai safonau gwell hefyd yn annog mwy o dwristiaeth. Ychydig iawn o effeithiau negyddol canfyddedig oedd gan gynllun o'r fath – y mwyaf negyddol oedd ei effaith ar 'allu pobl leol i ddod o hyd i dŷ i'w rentu neu ei brynu yn y gymuned leol' (dim ond 17% negyddol a 49% cadarnhaol).


**Gosod y cyd-destun:
Demograffeg yr
ymatebwyr a
bwriadau twristiaeth**



Cyrchfannau ar gyfer gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- De-orllewin Lloegr yw'r cyrchfan mwyaf poblogaidd ar gyfer trip dros nos yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf – ychydig o dan 1 o bob 4 (23%) yn debygol iawn o fynd i'r rhanbarth hwn. Mae Cymru yn agos at y brig o ran ystyriaeth, gydag 20% yn debygol iawn o fynd yno am ymweliad dros nos yn y blynyddoedd nesaf.

Ffigur 1. Cyrchfannau ymatebwyr sy'n debygol iawn o gymryd gwyliau/gwyliau byr yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




68%
'tebygol iawn' o
ymweld ag o leiaf un
cyrchfan


Rhyw a chyfnod bywyd

- Mae rhaniad rhyw yr ymatebwyr yn gymharol gyfartal ar draws pob un o'r is-grwpiau a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r proffil oedran hefyd yn gymharol gyson ar draws cynulleidfaoedd – tua thraean yn 16-34 oed a thraean arall yn 35-54 oed.

Ffigur 2. Rhyw yr ymatebwyr , Canran, Yr Holl ymatebwyr




Ffigur 3. Oed yr ymatebwyr, Canran, Yr Holl ymatebwyr




Incwm aelwydydd a gradd gymdeithasol

- Mae tua hanner holl breswylwyr y DU yn perthyn i raddau cymdeithasol uchel ABC1, sy'n gymharol gyson ar draws pob is-grŵp a gafodd sylw yn yr ymchwil, er bod y rhai sy'n cynllunio mynegai tripliau ychydig yn uwch ymhlith y cynulleidfaoedd hyn.
- Mae'r rhai sy'n cynllunio gwyliau domestig yn dueddol o fod ag incwm cartref uwch na'r boblogaeth ehangach.

Ffigur 4. Gradd gymdeithasol yr ymatebwyr , Canran, Yr holl ymatebwyr



Ffigur 5. Incwm aelwydydd ymatebwyr, Canran, Yr holl ymatebwyr



C15: Pa un o'r rhain sydd fwyaf amlwg yn berthnasol i'ch galwedigaeth? CGBP: I ba un o'r categorïau canlynol y mae cyfanswm incwm blyneddol eich cartref yn disgyn cyn trethi?

Sylfaen: Holl breswylwyr y DU n=2,557; Preswylwyr o Gymru n=1,022; Yn Cynllunio gwyliau neu wyliau byr n y DU n = 1,700


**Agweddau ymhlith
ymgymerwyr tripiâu
domestig**



Yr hyn sy'n bwysig wrth archebu llety ymwelwyr

- Nid yw'n syndod mai 'gwerth da am arian' yw'r ffactor pwysicaf (o'r rhai a brofwyd) wrth archebu llety i ymwelwyr.
- Mewn perthynas â ffactorau iechyd a diogelwch, mae 'gweithredu'n ddiogel' yn bwysig i'r mwyafrif helaeth (89% yn nodi ei fod yn 'bwysig iawn/gweddol bwysig, gyda 59% yn ei weld yn 'bwysig iawn'), yn ogystal â 'gallu i godi unrhyw pryderon neu gwyno am safonau gyda chorff annibynnol' (76% yn nodi ei fod yn bwysig; 36% yn nodi ei fod yn bwysig iawn).

Ffigur 6. Graddfeydd pwysigrwydd ffactorau wrth archebu llety ymwelwyr, Canran, Yr holl rai sy'n bwriadu cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU




A5. Pa mor bwysig, os o gwbl, yw'r canlynol pan fyddwch yn archebu llety i ymwelwyr ar gyfer gwyliau neu wyliau byr yn y DU?
 Sylfaen: Yr holl rai sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 12 mis nesaf n=1,700



Tebygolrwydd archebu heb safonau penodol yn eu lle

- Yn nodedig, y ffactor mwyaf a fyddai'n atal ymgymerwr triplau yn y DU rhag archebu gwyliau domestig yw pe na bai'n 'gweithredu'n ddiogel' – dywedodd bron i hanner y byddent yn bendant/yn ôl pob tebyg ddim yn gwneud hynny yn y senario hwn. Mae'r 'gallu i godi pryderon am safonau gyda chorff annibynnol' yn llai annymunol (dim ond 'ddim yn ecogyfeillgar' sydd wedi'i raddio'n is), er bod 44% nodedig yn dal i nodi y byddent yn debygol/yn bendant ddim yn archebu lle yn yr achos hwn..

Ffigur 7. Canran tebygolrwydd archebu llely pe na bai'r lleoliad yn bodloni'r amodau hyn




A6. Pa mor debygol neu annhebygol fydddech chi o archebu llely ar wyliau byr neu wyliau yn y DU pe na bai yn...?
Sylfaen: Pawb sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 12 mis nesaf n=1,700

Ymwybyddiaeth o'r ffaith nad oes cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i lety gadarnhau ei fod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch i weithredu

- Nid yw'r mwyafrif o breswylwyr y DU (62%) sy'n cynllunio gwyliau dros nos yn y DU yn ymwybodol nad oes cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr llety i ymwelwyr gadarnhau eu bod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch i weithredu. Mae ymwybyddiaeth yn sylweddol is ymhlith y rhai na fyddent yn archebu lle os nad oedd lleoliad yn gweithredu'n ddiogel neu nad oedd yn cynnig 'y gallu i godi pryderon am safonau i gorff annibynnol'.

Ffigur 8. Ymwybyddiaeth o'r ffaith nad oes cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i lety gadarnhau ei fod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch i weithredu. Canran, Pawb sy'n bwriadu cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU.




Tabl 1. Ymwybyddiaeth o ddiffyg cynllun iechyd a diogelwch fesul is-grwpiau

	Pawb na fyddai'n archebu llety os nad yw'n 'gweithredu'n ddiogel'	Pawb na fyddai'n archebu llety os nad oes 'gallu i godi pryderon am safonau'
Ydy - yn bendant	12%	14%
Ydy - o bosib	8%	9%
Nac ydy, doeddwn i ddim yn ymwybodol o hyn	80%	78%


Effaith y cynllun iechyd a diogelwch posibl ar y rhai sy'n archebu triapiau

- Mae'r rhan fwyaf o fwriadwyr triapiau domestig yn nodi y byddent yn fwy tebygol o archebu llety (83%) ac y byddent yn fwy hyderus yn eu diogelwch personol (85%) pe bai'n gyfreithiol ofynnol i ddarparwr y llety gadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol. i weithredu.

Ffigur 9. Tebygolrwydd archebu gyda gofyniad cyfreithiol i gadarnhau cydymffurfiaeth â diogelwch iechyd



Ffigur 10. Hyder mewn diogelwch personol gyda gofyniad cyfreithiol i gadarnhau cydymffurfiaeth gyda diogelwch iechyd, Canran, Pawb sy'n bwriadu cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU




A8. Pe bai'n ofynnol yn gyfreithiol i ddarparwyr llety gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol (e.e. trwy Gynllun Statudol) i weithredu, faint yn fwy neu'n llai tebygol y byddech chi o archebu gwyliau neu gwyliau byr gyda nhw? A9. Faint yn fwy neu'n llai hyderus y byddech yn eich diogelwch personol pe bai'n gyfreithiol ofynnol i'r llety ymwelwyr yr oeddech yn aros ynddo gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol, i weithredu (e.e. trwy Gynllun Statudol)? Sylfaen: Pawb sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 12 mis nesaf n=1,700

Pa elfennau iechyd a diogelwch sy'n bwysig wrth archebu llety

- Mae'r mwyafrif helaeth o'r bwriadwyr tripliau domestig yn gweld pob maes a brofwyd yn bwysig i ddarparwyr llety gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol. Tystysgrif diogelwch nwy, diogelwch trydanol, asesiad risg tân a sgoriau hylendid bwyd yw'r rhai pwysicaf. Ystyrir mai'r gallu i godi pryderon neu gwynion gyda chorff annibynnol yw'r lleiaf pwysig, er ei fod yn dal yn bwysig i fwyafrif. Awgrymwyd amrywiaeth o feysydd eraill hefyd, gan gynnwys 'safonau hygrychedd', 'diogelwch plant', a 'lefelau trosedd'.

Awgrymiadau eraill*

Ffigur 11. Meysydd o bwys wrth gadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol, Canran, Pawb sy'n bwriadu cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU



- "Safonau hygrychedd"
- "Diogelwch plant"
- "Allanfeydd brys"
- "Glendid cyffredinol"
- "Uchder ystafelloedd"
- "Lefelau trosedd lleol"
- "Canfod llwydni"
- "Diogelwch mewn eiddo"
- "Llygredd swm"
- "Monitro carbon monocsid"

*A10. Pe bai'n ofynnol yn gyfreithiol i bob darparwr llety gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol, i weithredu (e.e. trwy Gynllun Statudol), pa mor bwysig neu ddibwys fyddai cynnwys pob un o'r elfennau hyn? Atebwch mewn perthynas â pha mor bwysig fyddai hynny i chi fel rhywun a allai aros mewn llety yn y DU.

Sylfaen: Pawb sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 12 mis nesaf n=1,700.

*Mae awgrymiadau eraill yn sylwadau unigol yn bennaf felly nid ydynt wedi eu codio yn ganrannau.


Agweddau ymhlith preswylwyr o Gymru



Maint twristiaeth sydd yn yr ardal leol a'r effaith ar ddarparwyr llety

- Mae 1 o bob 4 (25%) o gyhoedd y DU yn credu eu bod yn cael 'llawer' o dwristiaeth yn eu hardal leol, tebyg yng Nghymru (27%). O blith preswylwyr o Gymru sy'n cael rhywfaint neu lawer o dwristiaeth yn eu hardal, mae mwy wedi sylwi ar gynnydd mewn darparwyr llety nag sydd wedi sylwi ar ostyngiad (+20 net).

Ffigur 12. Maint twristiaeth yn yr ardal leol, Canran, Yr holl breswylwyr



A1. Yn eich barn chi, faint o dwristiaeth ydych chi'n ei gael yn eich ardal leol?


Sylfaen: Preswylwyr o'r DU n=2,557; Preswylwyr o Gymru n=1,700; Preswylwyr o Ogledd Cymru n=184; Preswylwyr o Ganolbarth Cymru n=57; Preswylwyr o Dde-orllewin Cymru n=223; Preswylwyr o Dde-ddwyrain Cymru n=558

Am ddiffiniadau rhanbarthol gweler tudalen 5. Sylwer: Samplwyd yr ymatebion yn ddaearyddol ar hap felly ni fyddant yn gwbl gynrychioliadol o ranbarthau Cymru. Mae data felly yn ddangosol yn unig.

Maint twristiaeth yn yr ardal leol a'r effaith ar ddarparwyr llety

- Mae 1 o bob 4 (25%) o gyhoedd y DU yn credu eu bod yn cael 'llawer' o dwristiaeth yn eu hardal leol, tebyg yng Nghymru (27%). O blith preswylwyr o Gymru sy'n cael rhywfaint neu lawer o dwristiaeth yn eu hardal, mae mwy wedi sylwi ar gynnydd mewn darparwyr llety nag sydd wedi sylwi ar ostyngiad (+20 net).

Ffigur 13. Newid yn nifer y darparwyr llety dros nos yn yr ardal leol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, Canran, Yr holl breswylwyr gyda pheth/llawer o dwristiaeth yn eu hardal



A2: Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn nifer y darparwyr llety dros nos i ymwelwyr (e.e. Gwestai, Gwely a Brecwast, gosodiadau hunanarlwyo, meysydd gwersylla, ac ati) yn eich ardal leol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf?


Sylfaen: Preswylwyr o'r DU gyda llawer o dwristiaeth yn eu hardal n=1,447; Preswylwyr o Gymru gyda llawer o dwristiaeth yn eu hardal n=583; Preswylwyr o Ogledd Cymru n=131; Preswylwyr o Ganolbarth Cymru n=39*; Preswylwyr o Dde-orllewin Cymru n=131; Preswylwyr o Dde-ddwyrain Cymru n=282 *Meintiau sylfaen isel – i'w trin yn ofalus. Sylwer: Samplwyd yr ymatebion yn ddaearyddol ar hap felly ni fyddant yn gwbl gynrychioliadol o ranbarthau Cymru. Mae data rhanbarthol felly yn ddangosol yn unig.



Effaith cynnydd mewn llety yn yr ardal leol

- Mae'r cynnydd mewn llety ymwelwyr wedi cael nifer o effeithiau negyddol canfyddedig ar ardaloedd twristiaeth Cymru – 'sbwriel neu lygredd', 'rhwyddineb parcio' a 'gallu pobl leol i ddod o hyd i dŷ i'w rentu neu ei brynu' yw'r meysydd mwyaf blaenllaw. Dim ond effaith negyddol canfyddedig gyfyngedig sydd ar iechyd a diogelwch – yr ateb mwyaf poblogaidd i hyn 'ddim yn gadarnhaol nac yn negyddol'. Mae'r effaith canfyddedig ar yr economi leol yn gadarnhaol iawn/gweddol gadarnhaol..
- Mae'r patrwm yn gymharol gyson ar draws rhanbarthau Cymru, er bod canfyddiadau negyddol yn gryfach yng Ngogledd Cymru.

Ffigur 14. Effaith y cynnydd mewn llety ymwelwyr yn yr ardal, Canran yn ôl yr effaith negyddol, Yr Holl breswylwyr o Gymru sy'n nodi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr dros nos yn eu hardal (Mae'r ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi'u dileu)




A3. O'ch dealltwriaeth chi, pa mor gadarnhaol neu negyddol y mae'r cynnydd mewn llety dros nos i ymwelwyr wedi'i gael ar eich cymuned leol o ran...?

Sylfaen: Yr Holl breswylwyr o Gymru sy'n nodi cynnydd mewn llety dros nos i ymwelwyr yn eu cymuned leol n=c.200 fesul datganiad Sylwer: Samplwyd yr ymatebion yn ddaearyddol ar hap felly ni fyddant yn gwbl gynrychioliadol o ranbarthau Cymru. Mae data rhanbarthol felly yn ddangosol yn unig.

Ymwybyddiaeth preswylwyr o ddim cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i lety gadarnhau eu bod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch i weithredu

- Yn debyg i fwriadwyr tripiâu domestig dros nos, nid yw'r mwyafrif helaeth o breswylwyr o Gymru – gyda neu heb dwristiaeth yn eu hardal – yn ymwybodol nad oes cynllun ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr llety i ymwelwyr gadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch.

Ffigur 15. Ymwybyddiaeth preswylwyr o ddim cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i lety gadarnhau eu bod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch, Canran, Yr Holl breswylwyr o Gymru gyda llawer/peth twristiaeth yn eu hardaloedd




A7. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr llety i ymwelwyr gadarnhau eu bod yn bodloni gofynion penodol (e.e. iechyd a diogelwch sylfaenol) i weithredu. A yw hyn yn rhywbeth yr oeddech yn ymwybodol ohono cyn llenwi'r holiadur hwn?

Sylfaen: Yr Holl breswylwyr o Gymru n=583

Effaith cyflwyno Cynllun Statudol ynglŷn â chadarnhau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch

- Mae preswylwyr o Gymru yn gweld cyflwyno Cynllun Statudol iechyd a diogelwch yn gadarnhaol ar y cyfan ym mhob maes o fewn eu cymuned. Ychydig iawn sy'n ei weld yn negyddol mewn unrhyw ffordd.
- Teimlir positifrwydd ar draws rhanbarthau o fewn Cymru, er fymryn yn llai felly yng Ngogledd Cymru.

Ffigur 16. Effaith cyflwyno Cynllun Statudol yn ymwneud â chadarnhad o gydymffurfiaeth iechyd a diogelwch, Canran, Yr Holl breswylwyr o Gymru sy'n adrodd am gynnydd mewn ymwelwyr dros nos yn eu hardal (Mae'r ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi'u dileu)




A13. A pha mor gadarnhaol neu negyddol y byddai effaith y Cynllun Statudol yn ymwneud â chadarnhau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch ar gyfer llety ymwelwyr yn ei chael ar eich ardal leol o ran...?

Sylfaen: Yr Holl breswylwyr o Gymru gyda llawer/peth twristiaeth yn eu hardal n=c.500 – mae 'ddim yn gwybod' wedi'u dileu.

Ymateb i gyflwyno Cynllun Statudol ynglŷn â chadarnhau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch

- Effaith cyflwyno Cynllun Statudol yn ymwneud â chadarnhau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch, effaith gadarnhaol ar eu hardal leol, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd y byddai'n codi safonau diogelwch. Teimlai rhai hefyd y byddai hyn yn denu mwy o dwristiaid i'r ardal.

Ffigur 17. Ymateb i gyflwyno Cynllun Statudol yn ymwneud â chadarnhad o gydymffurfiaeth iechyd a diogelwch, Canran, Yr Holl breswylwyr o Gymru sy'n adrodd am gynnydd mewn ymwelwyr dros nos yn eu hardal (Mae ymatebion 'Ddim yn gwybod' wedi'u dileu).



Pam ydych chi'n dweud bod...?

Amgylchedd mwy diogel

“Byddai Cynllun Statudol yn fwy tebygol o sicrhau cydymffurfiaeth”

“Byddai llety yn fwy diogel pe bai'n ofynnol yn gyfreithiol.”

“Byddai llety yn fwy diogel pe bai'n ofynnol yn gyfreithiol.”

“Diogelwch i blant.”

“Byddai'n cadw'r gymuned yn ddiogel”

Gwell i dwristiaid

“Efallai y bydd yn annog mwy o bobl i ymweld..”

“Byddwn yn denu mwy o bobl i'r ardal”

“Bydd twristiaid yn fwy tebygol o ymweld os oes cadarnhad o safonau”

A13. A pha mor gadarnhaol neu negyddol y byddai effaith y Cynllun Statudol yn ymwneud â chadarnhau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch ar gyfer llety ymwelwyr yn ei chael ar eich ardal leol o ran...?

Sylfaen: Yr Holl breswylwyr o Gymru gyda llawer/peth twristiaeth yn eu hardal n=c.500 – Mae 'Ddim yn gwybod' wedi'u dileu.

Atodiad 1



Arwyddocâd ystadegol

Mae'r tabl isod yn amlinellu dibynadwyedd ystadegol yr ymatebion i'r arolwg. Nid yw'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn hollgynhwysfawr ond fe'u dewiswyd i ddangos hyder amrywiol mewn ystod o wahanol feintiau sampl.

Sylfaen	Canfyddiad yr arolwg o...		
	5 / 95%	20 / 80%	50 / 50%
Bwriadwyr tripiâu domestig (1,700)	+/-1.0%	+/- 1.9%	+/- 2.4%
Preswylwyr o Gymru (1,022)	+/- 1.3%	+/- 2.5%	+/- 3.1%
Preswylwyr o Oogledd Cymru (184)	+/- 3.1%	+/- 5.8%	+/- 7.2%
Preswylwyr o Ganolbarth Cymru (57)	+/- 5.7%	+/- 10.4%	+/- 13.0%
Preswylwyr o Dde-orllewin Cymru (223)	+/- 2.9%	+/- 5.3%	+/- 6.6%
Preswylwyr o Dde-ddwyrain Cymru (558)	+/- 1.8%	+/- 3.3%	+/- 4.1%